

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 29 Awst 2018

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD**

**Teitl:** Brechu rhag y ffliw a chynllunio clinigau ffliw yn 2018-19 i bobl 65 oed ac yn hŷn.

**Dyddiad dod i ben / Adolygu** Amherthnasol

**I'w weithredu gan:**

Meddygon Teulu  
Fferyllwyr  
Prif Weithredwyr, Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Cyfarwyddwyr Meddygol,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Arweinwyr Imiwneiddio, Byrddau lechyd  
Cydgysylltwyr Imiwneiddio, Byrddau lechyd  
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio,  
Byrddau/Ymddiriedolaethau lechyd  
Cyfarwyddwr Gweithredol lechyd Cyhoeddus,  
lechyd Cyhoeddus Cymru  
Pennaeth y Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau  
Ataliadwy, lechyd Cyhoeddus Cymru

**Er gwybodaeth:**

Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol  
Coleg Brenhinol y Nyrsys  
Y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol  
Fferylliaeth Gymunedol Cymru  
Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)  
Cyngor Ymarferwyr Cyffredinol, Cymru

**Anfonir gan:**

Prif Swyddog Meddygol Cymru

**Enw(au) Cyswilt AIGC yn Llywodraeth Cymru:**

Gwasanaethau Diogelu Iechyd, Adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd.  
CF10 3NQ E-bost: HealthProtection@llyw.cymru

**Dogfen(nau) amgaeedig:** Dim

Annwyl Gydweithiwr,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch atgoffa o'r argymhellion clinigol ynghylch y brechlynnau mwyaf effeithiol ar gyfer cleifion rhaglen frechu rhag y fflw 2018-19, ac i roi gwybodaeth allweddol am y brechlyn fflw trivalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aTIV) i helpu practisau cyffredinol a fferyllfeydd i gynllunio ar gyfer tymor brechu rhag y fflw 2018-19.

Roedd Cylchlythyrau Iechyd Cymru 2017(052), 2018(015) a 2018(023) yn darparu cyngor a chanllawiau ynghylch archebu brechlynnau fflw ar gyfer 2018-19. Gellir gweld y cylchlythyrau yma:

<https://gov.wales/topics/health/nhswales/circulars/public-health/?skip=1&lang=cy>

Ar sail cyngor y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, mae'r brechlynnau sy'n cael eu hargymhell ar gyfer y gwahanol grwpiau oedran fel a ganlyn:

- Brechlyn fflw trivalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aTIV) i bawb 65 oed ac yn hŷn.
- Brechlyn fflw pedwarfalent (QIV) i'r rhai agored i niwed rhwng 18 a 64 oed.
- Brechlyn fflw pedwarfalent byw wedi'i wanhau (LAIV) ar gyfer plant rhwng dwy ac 17 oed. Dylai plant iau na 2 oed neu sydd wedi'u cynghori yn erbyn defnyddio LAIV gael brechlyn fflw pedwarfalent anweithredol addas (QIV).
- Dylai gweithwyr gofal iechyd a gofal cymdeithasol iau na 65 oed gael cynnig y brechlyn fflw pedwarfalent (QIV).

Rwy'n cydnabod y bydd gweithredu'r argymhellion hyn yn heriol ar gyfer gofal sylfaenol, ond er mwyn gwarchod cymaint â phosib mae'n bwysig cynnig y brechlynnau fflw mwyaf effeithiol ar gyfer y garfan oedran.

### **Brechlyn fflw trivalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aTIV) Fluad<sup>®</sup>**

Mae Seqirus, gwneuthurwr aTIV (Fluad<sup>®</sup>) wedi cadarnhau ei fod yn gallu darparu cyflenwad digonol o'r brechlyn i'r boblogaeth 65 oed ac yn hŷn yn y DU. Bydd y brechlyn yn cael ei gyflenwi i'r darparwyr ar draws y DU fesul cam:

- 40% i'w gyflenwi ym mis Medi
- 20% ym mis Hydref
- 40% ym mis Tachwedd.

Er mwyn helpu i sicrhau mynediad cyfartal i gleifion a bod pob darparwr brechiadau yn cael eu trin yn deg, bydd y drefn hon o gyflenwi fesul cam yn berthnasol i'r holl gwsmeriaid ar draws y DU. Mae Seqirus yn trafod â'r practisau a'r fferyllfeydd unigol i ddarparu mwy o fanylion ynghylch y symiau fydd yn cael eu cyflenwi a'r amserlen ddisgwyliedig.

Gyda chynllunio priodol, dylid medru brechu'r holl gleifion cymwys cyn i'r fflw ddechrau lledaenu. Fel rheol mae tymor y fflw yn dechrau ym mis Rhagfyr, er y gall ddigwydd yn gynt neu'n hwyrach o bryd i'w gilydd. Cydnabyddir y bydd nifer o unigolion 65 oed ac yn hŷn yn cyfeirio eu hunain i gael eu brechu rhag y fflw yn ystod mis Medi a mis Hydref. Yn ystod tymor y fflw 2017-18, roedd tua 75% o'r

brechiadau yn y grŵp oedran hwn wedi'u rhoi erbyn yr wythnos a ddaeth i ben ar 29/10/2017. Yn 2018-19, bydd angen i'r clinigau brechu ar gyfer y grŵp oedran hwn gael eu cynnal fesul cam, gan ymestyn i fis Tachwedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gyda Phwyllgor Ymarferwyr Cyffredinol Cymru i weld beth yw'r ffordd orau o fewn gofal sylfaenol i amddiffyn y cleifion mwyaf agored i niwed gymaint â phosib yn y tymor i ddod, gan fod y cyflenwadau yn dod fesul cam. Cytunwyd ar y canlynol:

- Blaenoriaethu'r aTIV sydd ar gael yn ystod mis Medi a mis Hydref i'r rhai 75 oed ac yn hŷn a'r rhai rhwng 65 a 74 oed sydd mewn grŵp risg clinigol.
- Cynnig dewis i'r rhai rhwng 65 a 74 oed nad ydynt mewn grŵp risg clinigol, naill ai i aros i'r aTIV ddod ar gael yn ddiweddarach neu gael brechlyn fflw pedwarfalent (QIV) ar unwaith.

Rydym yn gwybod bod nifer fach o bractisau heb archebu aTIV ar gyfer eu poblogaethau 65 oed ac yn hŷn fel argymhellwyd. Mae hefyd nifer fach nad yw eu harchebion wedi'u prosesu. Mae'r practisau hynny, yn ddealladwy, yn pryderu y bydd y rhai dros 75 oed, y rhai mewn mwyaf o risg clinigol a'r rhai mewn cartrefi gofal, yn agored i niwed. Dylid gweithredu yn lleol lle bynnag y bo'n bosibl o fewn clystyrau practisau i gynnig aTIV i'r cleifion hynny. Bydd angen deialog ar lefel clwstwr rhwng practisau meddygon teulu a fferyllfeydd cymunedol i ddeall faint o aTIV sydd wedi'i sicrhau, a dod o hyd i atebion lleol i sicrhau bod y grwpiau sy'n cael eu rhestru uchod yn cael eu hamddiffyn yn y lle cyntaf.

Ceir rhagor o ganllawiau yn Atodiad A.

Mae'r ffaith bod brechlyn mwy effeithiol ar gael ar gyfer rhai o'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn ein poblogaeth yn ddatblygiad cadarnhaol ar gyfer 2018-19. Bydd cleifion yn cael eu hamddiffyn yn well rhag y fflw, ac fe ddylid gweld manteision ychwanegol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gyda llai o bobl yn mynd at y meddyg neu'n cael eu derbyn i'r ysbyty, a llai o achosion o'r fflw mewn lleoliadau gofal.

Rwy'n croesawu eich cymorth wrth gyflawni'r rhaglen hon.

Yn gywir



**Dr Frank Atherton**  
**Y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru**

## **GWYBODAETH ALLWEDDOL AR GYFER CYNLLUNIO**

Mae'r atodiad hwn yn rhoi gwybodaeth allweddol am y brechlyn ffliw trivalent sy'n cynnwys cyffur ategol (aTIV) i helpu practisau cyffredinol a fferyllfeydd i gynllunio ar gyfer tymor brechu rhag y ffliw 2018-19.

### **Cynghorir practisau a fferyllfeydd i ddechrau brechu pob grŵp cymwys wrth i'r brechlyn priodol ar eu cyfer ddod ar gael.**

Bydd y brechlynnau yn dod ar gael ar wahanol adegau o fis Medi ymlaen. Argymhellir brechu pob grŵp o gleifion sy'n dod o dan y rhaglen ffliw, fel rheol rhwng mis Medi a mis Rhagfyr. Yn gyffredinol, mae'n briodol cynnig brechu cleifion cymwys ar unrhyw adeg yn ystod tymor y ffliw, hyd yn oed os ydynt yn cyrraedd yn hwyr i gael eu brechu. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig wrth gyrraedd diwedd tymor y ffliw, neu pan fydd cleifion newydd yn dechrau bod yn agored i niwed, fel menywod beichiog nad oeddent o bosib yn feichiog ar ddechrau'r cyfnod brechu.

Mae Seqirus eisoes wedi hysbysu practisau a fferyllfeydd ym mha wythnos y byddant yn derbyn y tri chyflenwad o aTIV, ym mis Medi (40%), mis Hydref (20%) a mis Tachwedd (40%). Bydd yr union ddyddiau a'r symiau yn cael eu cadarnhau ym mis Awst. Mae'n bosibl y bydd QIV ar gael yn gynt, ac fe fydd y cyflenwr yn cadarnhau'r dyddiadau gyda'r practisau a'r fferyllfeydd.

### **Nodiadau ar gynllunio clinigau brechu ar gyfer y rhai 65 oed ac yn hŷn gyda aTIV**

**Practisau cyffredinol** - cydnabyddir bod y grŵp hwn o gleifion yn mynychu clinigau brechu rhag y ffliw yn rheolaidd, a'u bod o bosib yn gyfarwydd â'r drefn o frechu rhag y ffliw yn eich practis. Bydd angen addasu trefniadau eleni gan y bydd aTIV yn cael ei gyflenwi fesul cam. Y practisau eu hunain sydd yn y lle gorau i gynllunio'r rhaglen ffliw ar gyfer eu poblogaeth, ond dyma awgrymiadau o ran sut y gellid addasu'r system arferol eleni:

- Cyfathrebu â'r cleifion o fis Awst ymlaen, drwy bob un o'r sianeli cyfathrebu yr ydych yn eu defnyddio fel rheol: gwefannau, posteri, negeseuon ar bresgripsiynau, grwpiau cyfranogiad cleifion, cylchlythyrau lleol ac ati.
- Bydd negeseuon yr ymgyrch gyhoeddusrwydd genedlaethol yn tynnu sylw at amgylchiadau arbennig 2018-19. Mae taflen y ffliw 2018 yn dweud: 'Yr amser gorau i gael brechiad y ffliw yw cyn i'r ffliw ddechrau ymddangos, sydd tua chanol mis Rhagfyr ar y cynharaf fel rheol. Yn 2018, bydd y brechiad a argymhellir ar gyfer plant a phobl 65 oed a hŷn yn cael ei dderbyn gan feddygfeydd fesul cam rhwng misoedd Medi a Thachwedd. Bydd meddygfeydd yn cynnig y brechiad cyn gynted â phosib, ond byddant yn rhoi'r brechiad fesul cam, ac felly bydd rhaid i rai pobl aros efallai nes bod y brechiad a argymhellir ar eu cyfer hwy ar gael. Gofynnir i bobl fod yn amyneddgar yn ystod y cyfnod hwn. Bydd brechiad y ffliw ar gyfer plant a phobl 65 oed a hŷn ar gael rhwng misoedd Medi a Thachwedd a bydd y dosbarthu i feddygfeydd a fferyllfeydd cymunedol yn digwydd fesul cam yn ystod y cyfnod hwn. Gall hyn olygu bod rhaid i chi aros am ychydig nes bod y brechiad a argymhellir ar gael'. Y neges allweddol yw 'Brechiad blynyddol y ffliw yw'r ffordd unigol orau o warchod rhag dal a lledaenu'r ffliw. Os ydych chi'n wynebu risg gynyddol o'r ffliw, dylech gael brechiad y ffliw bob blwyddyn'. Mae gofyn i practisau meddyg teulu alw pob un o'u cleifion cymwys i gael eu brechu. Gallai ysgrifennu at gleifion fod yn ffordd dda o reoli presenoldeb cleifion mewn clinigau ffliw ar sail y brechlynnau sydd ar gael.

- Gallai fod yn ddefnyddiol edrych ar fanylion grwpiau oedran a risg clinigol poblogaeth eich practis sydd yn 65 oed ac yn hŷn, ac unrhyw wybodaeth sydd gennych am batrwm presenoldeb i gael brechiadau rhag y fflw llynedd.
- Pan fydd claf yn cael ei frechu, mae'n cymryd tua phythefnos i ddatblygu imiwneidd.
- Fel rheol ni fydd y fflw yn cynyddu dros y lefelau gwaelodlin yn y DU tan fis Rhagfyr; er y gall ddiwydd yn gynt neu yn hwyrach. Felly mae brechiadau a roddir ganol mis Tachwedd yn debyg o gynnig amddiffyniad cyn i'r achosion o'r fflw ddechrau cynyddu.
- Gallai practisau ddefnyddio proffil eu poblogaeth 65 oed ac yn hŷn wrth anfon gwahoddiadau fesul cam; gan sicrhau bod poblogaethau penodol yn cael cyflenwadau aTIV yn eu tro fel y gwelir yn y tabl isod.

<b>Grwpiau Cleifion</b>		<b>Rhesymeg</b>
1.	Unigolion 75 oed ac yn hŷn  Unigolion mewn cartrefi gofal	Gwelwyd dros y blynyddoedd diwethaf mai'r grŵp hwn sydd fwyaf agored i ddiodef canlyniadau gwael y fflw, ac nid yw dos arferol o frechlynnau heb gyffur ategol yn effeithiol ymysg y grŵp hwn.  Nod y brechu yw lleihau nifer yr achosion o'r fflw mewn cartrefi gofal, ac effaith hyn ar wasanaethau iechyd a gofal, yn ogystal ag amddiffyn unigolion agored i niwed. Mae nifer o'r preswylwyr yn 75 oed ac yn hŷn.
2.	Unigolion 65 i 74 oed mewn grŵp risg clinigol	Mwy agored i ddiodef cymhlethdodau yn dilyn y fflw yn sgil cyflwr meddygol arall. Dylai'r grŵp hwn dderbyn aTIV.
3.	Unigolion 65 i 74 oed NAD YDYNT mewn grŵp risg clinigol	Wrth fynd yn hŷn, mae'r perygl o ganlyniadau gwael y fflw yn cynyddu, felly aTIV yw'r brechlyn sy'n cael ei argymhell. Mae brechlynnau cyffredin rhag y fflw yn llai effeithiol yn y grŵp oedran hwn.

Er bod modd i bractis roi blaenoriaeth i gleifion drwy'r broses galw/ailalw, pan fydd aTIV ar gael fe'ch cynghorir i fanteisio ar y cyfle i frechu pawb sy'n 75 oed ac yn hŷn a'r rhai rhwng 65 a 74 oed sydd mewn grŵp risg clinigol os yw'r brechlyn sy'n cael ei argymhell ar gael, yn hytrach na gofyn iddynt ddychwelyd yn nes ymlaen.

Os nad yw'r brechlyn aTIV sy'n cael ei argymhell ar gael i'r rhai rhwng 65 a 74 oed nad ydynt mewn grŵp risg clinigol, dylid gofyn i'r claf ddychwelyd pan fydd ar gael, neu gynnig brechlyn pedwarfalent anweithredol (QIV) iddo. Dylid hysbysu'r cleifion bod QIV (a TIV) yn debygol o fod yn llai effeithiol na aTIV, a dylid cofnodi'r drafodaeth honno.

Wrth frechu pan fo'r cyfle'n codi, dylai practisau sicrhau bod ganddynt ddigon o gyflenwad o'r brechlyn ar gyfer unrhyw glinigau sydd wedi'u trefnu.

Os yw eich practis dan anfantais a heb sicrhau cyflenwad o aTIV, bydd angen trafodaeth ar frys ar lefel leol i ddod o hyd i ateb boddhaol i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed.

**Fferyllfeydd cymunedol** - gan nad oes gan fferyllfeydd gofrestr o gleifion, nid yw'n ymarferol dilyn trefn alwadau ffurfiol i gleifion cymwys. Fodd bynnag, mewn ffordd debyg i'r hyn a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer practisau cyffredinol, gallai fferyllfeydd wneud fel a ganlyn:

- Cyfathrebu trefniadau penodol 2018-19 i gleifion o fis Awst ymlaen drwy'r holl sianeli cyfathrebu rydych yn arfer eu defnyddio: gwefannau, posteri, taflenni, negeseuon ar fapiau presgripsiwn ac ati.
- Defnyddio'r negeseuon sydd yn yr ymgyrch genedlaethol (fel uchod), wrth gyfathrebu â chleifion.
- Gweithio'n agos gyda'ch clwstwr lleol i sicrhau, os oes angen, bod modd i chi gefnogi camau gweithredu lleol i amddiffyn y rhai sy'n 75 oed ac yn hŷn, y cleifion â'r mwyaf o risg clinigol a phreswylwyr cartrefi gofal.

Defnyddiwch y tabl uchod wrth ddarparu eich gwasanaeth brechu o fis Medi i fis Tachwedd, ond pan fo'r brechlyn priodol ar gael a chlaf cymwys yn cyrraedd y fferyllfa i ofyn am frechiad, byddai'n well brechu ar unwaith yn hytrach na gofyn iddo ddychwelyd yn ddiweddarach yn y tymor.

Os nad yw'r brechlyn aTIV sy'n cael ei argymhell ar gael, dylid gofyn i gleifion 75 oed ac yn hŷn neu gleifion rhwng 65 a 74 oed mewn grŵp risg clinigol ddychwelyd pan fydd aTIV ar gael. Ar gyfer y rhai rhwng 65 a 74 oed nad ydynt mewn grŵp risg clinigol, dylid gofyn i'r claf ddychwelyd pan fydd aTIV ar gael, neu gynnig brechlyn pedwarfalent anweithredol iddo.

### **Gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol**

Bydd pob un o ddarparwyr y brechiadau y DU, gan gynnwys practisau cyffredinol a fferyllfeydd cymunedol, yn cael yr un patrwm o gyflenwadau aTIV fesul cam yn 2018-19. Gallai gwaith partneriaeth lleol rhwng Pwyllgorau Meddygol Lleol a Phwyllgorau Fferyllol Lleol, neu yn uniongyrchol rhwng practisau a fferyllfeydd cymunedol, helpu i sicrhau bod cleifion yn derbyn negeseuon cyson am y rhaglen fflw, a bod y brechlyn yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.